

# Elfed yn Eglwys Hynafol Llangar

**M**ae'r Eglwys yma wedi ei lleoli tua milltir i'r De Ddwyrain o Gorwen a rhyw 200 llath i lawr llwybr troed o'r ffordd fawr nid nepell o Gynwyd. Dim ond ychydig o do Eglwys Holl Saint. Llangar sydd i'w gweld o'r ffordd ond mae wedi ei sefydlu mewn ardal ddelfrydol sydd yn edrych dros aber yr Afon Alwen a'r Afon Ddyfrdwy.

Yn anarferol, nid oes yna bentref o'r enw Llangar ond mae'r Eglwys wedi cymryd ei henw oddi wrth enw'r plwyf. Roedd yr Eglwys yn gwasanaethu'r ffermydd a thyddynod hynny oedd ar wasgar ac hefyd dau neu dri o dai y bonedd.

## Hanes cynnar

Y sôn cynharaf am yr Eglwys yw mewn cofnodion treth yn 1291, ond mae'n debyg fod yr eglwys wreiddiol wedi ei hadeiladu ers tua 1100. Yn ôl hen chwedl, yr ymgais gyntaf i adeiladu'r Eglwys oedd ar foncyn yn ymyl y bont yng Nghynwyd. Pob dydd byddai'r seiri yn brysur yn adeiladu'r eglwys, ond i ddod yn ôl y diwrnod canlynol i ddarganfod bod eu hymdrechion wedi eu difetha'n llwyr yn ystod y nos - nis gwyddant pwy oedd yn gyfrifol. Penderfynwyd ymweld â dewin yr ardal, a'i farn ef oedd mai ysbrydion drwg oedd yn gyfrifol am y dinistr. Cynghorodd bobol yr ardal i fynd i hela carw. Os iddynt ddarganfod carw gwyn roedd yn rhaid iddynt nodi yn fanwl y fan lle codwyd y carw, ac wedyn adeiladu'r Eglwys yn yr union fan hynny - a dyna beth ddigwyddodd. Felly galwyd yr eglwys yn Llangarwgwyn a thros y blynyddoedd fe ddaeth i'w hadnabod fel Llangar.

Dywedir hefyd fod taith yr helfa wedi diffinio ffiniau'r plwyf, ac mae hen bennill yn disgrifio'r digwyddiad, ac yn esbonio tarddiad rhai o enwau'r ffermydd presennol yn Llangar -

*Yn Llangar codwyd,  
Ym Moel Lladdfa lladdwyd,  
Ym Mronguddio cuddiwyd,  
Yn y Bedren pydrwyd.*

## Hanes teulu

Daeth diddordeb gennyf yn yr hen Eglwys yma tra yn hel achau fy nheulu ar ochr fy nhad, pan ddarganfyddais fod fy nghyndadau yn aelodau o'r Eglwys yma am tua 160 o flynyddoedd rhwng tua 1698 a 1851. Roedd fy hen daid (X4) Cadwaladr ap Humffrey a'i fab Humffrey Cadwaladr yn wardeniaid yn Eglwys Llangar ar wahanol gyfnodau rhwng y blynyddoedd 1730 a 1785. Mae cofnodion Eglwys Llangar yn dangos fod Cadwaladr ap Humffreys wedi cyfrannu'n gyson i goffrau'r Eglwys hefo dwy geiniog yn 1706 hyd at chwe swilt yn 1754 - hyn yn dangos mae'n debyg, fel yr roedd yn medru fforddio ychwaneg o arian fel yr oedd ei ffarm yn ffynnu. Diddorol oedd darllen y cofnodion yma, sydd yn rhoi darlun diddorol am fywyd yn yr ardal wledig yma yn y 18fed ganrif. Enghreifftiau oedd - taliadau gan yr Eglwys i ddynion am ladd cigfrain, draenogau a ffwlbartau. Taliad arall o chwe cheiniog, i gaethwas tlawd o Dwrci ar orchymyn y Rheithor yn 1735. Sgwn i sut ddaeth o i Langar yn 1735?

Yn 1685 roedd yna tua 177 o bobl yn y plwyf; yn 1809 tua 186 ac yn 1850 tua 250 -



*Eglwys Llangar*

felly nid oedd y boblogaeth wedi cynyddu rhyw lawer dros y blynyddoedd.

## Y Rheithor Edward Samuel

Ni ellir trafod hanes Eglwys Llangar heb ei chysylltu â thafarn Y Stamp, sydd yn sefyll wrth ymyl mynedfa'r Eglwys. Roedd Y Stamp yn un o dafarnau hynaf y plwyf, sydd erbyn heddiw yn dŷ preifat. Maen'n bosib fod rhyw fath o Swyddfa Stamp ar un adeg.

Yn ystod yr adeg rhwng 1721-1748, Edward Samuel oedd Rheithor dadleuol yr Eglwys ac roedd yn adnabyddus fel bardd, llenor a chyfieithydd. Roedd ei fab, hefyd o'r un enw, ac yn Rheithor yn Llangar ar ôl ei dad, hyd at 1762.

Wyr i Edward Samuel oedd Dr. Dafydd Samwell, a ddaeth yn enwog gan ei fod yn llawfeddyg ar ymgyrch Capten Cook i'r Cefnfor Tawel ac yn dyst i farwolaeth Capten Cook yn Hawaii yn 1779. (Gweler hefyd erthygl Dewi Jones ar David Samwell yn *Y Casglwr*, Haf 2005.)

Mae cymeriad Edward Samuel (y cyntaf) wedi ei nodi yn fanwl mewn adroddiad diddorol iawn i Esgob Llanelwy yn 1730, Cafodd Rheithor Corwen, sef John Wynne, ei anfon i Langar i asesu cyflwr adeilad yr Eglwys, sefyllfa y plwyfolion, a stâd addysg yn y plwyf. Ei farn am Edward Samuel oedd fod ganddo rhywfaint o ymennydd, ond ei fod yn hunandybus ac yn gwario ei amser yn gyfartal rhwng y tŷ eiddo (Y Stamp, mae'n debyg) a'i ystafell astudiaeth, ac felly roedd rhan helaeth o waith yr Eglwys yn cael ei gynnal yn y dafarn.

Roedd John Wynne wedi ei syfrdanu i ddarganfod fod yna ffrâe wedi bod yn mynd ymlaen am amser maith rhwng y Rheithor, Edward Samuel ac un o aelodau'r Eglwys, o'r enw Robert Owens, yr hwn oedd yn

dwrne ac yn byw yn un o blasdai'r ardal, Plas Isaf. Craidd yr helynt oedd, pwy oedd yn berchenog y sedd o dan y pulpod yn yr Eglwys, ac felly yr hawl i eistedd ynddi. Fel arfer, roedd Mr Owens a gwraig Edward Samuel yn rhannu'r sedd, ond yn sydyn daeth pethau i ben pan roddodd Robert Owens glo newydd ar ddrws y sedd i rwystro Mrs. Samuel a'i merched rhag eistedd ynddi. Ar yr un ochr, yr oedd Robert Owens yn dweud ei fod yn medru profi mai dim ond ar wahoddiad yn unig yr oedd gwraig y Rheithor yn cael eistedd yn y sedd, ac ar yr ochr arall, roedd Edward Samuels yn sicrhod fod y sedd wedi perthyn i wraig y Rheithor ers 60 o flynyddoedd. Gan fod yr holl fater yn cael ei ddwyn o flaen y frawdlys yn fuan, nid oedd John Wynne eisiau rhoi barn ar y sefyllfa!

## Gwnodl

Yng ngorllewin y plwyf ar ochr de mynydd y Mynyllod, mae'r ardal hanesyddol o'r enw Gwnodl, sydd ymhlith un o enwau hynaf Edeirnion. Hen Saint Cymraeg oedd Gwnodl, yn byw yn y chweched ganrif, ac mae'n debyg mai'r enw gwreiddiol oedd Gwynhoedl, ac felly mae'n bosib cael yr ystyr ohono fel "*gŵr sanctaidd neu ddedwydd ei fyd*". Mae amryw o ffermydd yn yr ardal yn cynnwys yr enw Gwnodl, megis Blaengwnodl Uchaf, Blaengwnodl Isaf, Gwnodl Bach, a Gwnodl Fawr - cartref y bardd enwog Peter Llwyd. (1765 - 1842).

Roedd fy nghyndeidiau yn byw yn ardal Gwnodl rhwng tua 1690 a 1851 ac roedd ganddynt siwrne o ddwy filltir a hanner i'r Eglwys yn Llangar. Rhaid hefyd oedd croesi'r Afon Ddyfrdwy i gyrraedd yr Eglwys. Yn 1826 hyd at 1851 roedd fy hen hen daid yn ffermio Blaengwnodl Uchaf a chyd-ddigwyddiad oedd

*(Parhâd ar dudalen 13)*